



TEITHIAU DYSGWYR SY'N DECHRAU YM MIS MEDI 2021



TEITHIAU DYSGWYR SY'N DECHRAU YM MIS MEDI 2022



NODIADAU ESBONIADOL

Mae'r diagramau'n dangos teithiau dysgwyr ar gyfer llwybrau galwedigaethol a gwmpesir gan y gyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Cysylltwch â ni am wybodaeth sy'n ymwneud â'n dull o ddynodi cymwysterau a ddefnyddir ar gyfer teithiau dysgwyr mewn llwybrau galwedigaethol eraill ar datblygu@cymwysteraucymru.org.

CYFRES NEWYDD O GYMWYSTERAU

Mae manylion y cymwysterau Sylfaen, Dilyniant a phrentisiaeth newydd, sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, i'w gweld ar [wefan Sgiliau i Gymru](#).

PRENTISIAETH (NEWYDD)

O fewn fframweithiau prentisiaeth newydd, bydd nifer o ofynion, gan gynnwys gofynion ar gyfer y cymwysterau a fydd yn cael eu dilyn. Yn dibynnu ar y daith a gymerir gan y dysgwr, gall rhai dysgwyr gael eu heithrio o rai o'r gofynion hyn.

CYMWYSTERAU CYFREDOL

Cymwysterau lefel 1 eang yw'r rhai sydd fel rheol yn cynnig profiadau generig neu aml-greffft sy'n cyflwyno dysgwyr i'r sectorau adeiladu neu beirianeg gwasanaethau adeiladu. Mae cymwysterau lefel 1 crefft-benodol fel arfer yn cynnig profiadau cymeradwy sy'n ymwneud ag un llwybr galwedigaethol penodol. Mae prentisiaethau cyfredol yn ymwneud â fframweithiau prentisiaeth gweithredol cyfredol, sydd fel arfer yn cynnig cymwysterau gwybodaeth a chymhwysedd (neu gymwysterau cyfunol), gan gynnwys NVQs, ar lefelau 2 a 3.